DYFODOL Y GYMRAEG – CYNLLUN STRATEGOL
THE FUTURE OF WELSH – A STRATEGIC PLAN

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government

CYNNWYS
CONTENTS

RHAGARWEINIAD_INTRODUCTION 3

1. TROSGLWYDDIAD IAITH YN Y TEULU_LANGUAGE TRANSMISSION IN THE FAMILY 6
2. PLANT 0 - 7 MLWYDD OED_CHILDREN AGED 0 - 7 9
3. ADDYSG A HYFFORDDIANT CYMRAEG A DWYIEITHOG
   WELSH LANGUAGE AND BILINGUAL EDUCATION AND TRAINING 12
4. DEFNYDDIO'R GYMRAEG GAN BOBL IFANC_USE OF WELSH BY YOUNG PEOPLE 17
5. HYRWYDDO A HWYLUSO DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GYMUNED
   PROMOTING AND FACILITATING THE USE OF WELSH IN THE COMMUNITY 20
6. DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y SECTOR PREIFAT_USING WELSH IN THE PRIVATE SECTOR 23
7. CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG, A DATBLYGU A DARPARU GWASANAETHAU YN Y GYMRAEG
   WELSH LANGUAGE SCHEMES AND DEVELOPING AND PROVIDING SERVICES IN THE WELSH LANGUAGE 26
8. NORMALEIDDIO DWYIEITHRWYDD_NORMALISING BILINGUALISM 29
9. HYBU HAWLIAU IEITHYDDOL FEL RHAN O'R MAES CYFLE CYFARTAL
   PROMOTING LANGUAGE RIGHTS AS PART OF THE EQUAL OPPORTUNITIES FIELD 33
10. TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYNLLUNIO CORPWS
    INFORMATION TECHNOLOGY AND CORPUS PLANNING 36
11. YMCHWIL A DATA_RESEARCH AND DATA 40

RHAGARWEINIAD
INTRODUCTION

i. Mae'r ddogfen gryno hon yn gosod allan gynllun strategol ar gyfer yr iaith Gymraeg. Ei phrif symbyliad yw sicrhau parhad i waith a gweledigaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg wrth i'r rhan fwyaf o swyddogaethau'r corff gael eu hymgorffori yn Llywodraeth y Cynulliad erbyn mis Ebrill 2007. Mae'n cwmpasu'r cyfnod cyn i hynny ddigwydd ac yn edrych ymlaen yn ogystal tuag at y cyfnod dilynol hyd nes cyhoeddi canlyniadau Cyfrifiad 2011 ar yr iaith.

ii. Seilir **Dyfodol y Gymraeg - Cynllun Strategol** yn bennaf ar yr hyn a gyflawnwyd gan y Bwrdd, a chan ei bartneriaid, ers sefydlu'r Bwrdd gan Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Mae'n amlinellu'r hyn y cred y Bwrdd sydd angen ei gyflawni tua'r dyfodol er mwyn gweld y Gymraeg yn ffynnu mewn Cymru wirioneddol ddwyieithog, o ran ei statws ac o ran nifer ei siaradwyr a'u defnydd hwy o'r iaith.

iii. Mae'r ddogfen hon yn tynnu ar nifer o ddogfennau blaenorol a luniwyd gan y Bwrdd: yn arbennig ei Gynlluniau Corfforaethol blynyddol; y ddogfen **Strategaeth ar gyfer yr Iaith Gymraeg** a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 1996 ar ôl ymgynghoriad eang; a'r dadansoddiad o gynllunio ieithyddol a geir yn y ddogfen **Yr Iaith Gymraeg: Cenhadaeth a Gweledigaeth ar gyfer 2000-2005** a gyflwynwyd gan y Bwrdd i'r Cynulliad Cenedlaethol ym mis Tachwedd 1999.

iv. Mae'r cynllun strategol wedi ei anelu at bawb sydd â rhan yn y gwaith o lunio polisïau sy'n effeithio ar y Gymraeg, ac ar ddwyieithrwydd, a hefyd at y sawl sy'n ceisio gweithredu'r polisïau hynny. Bwriadwn ei drafod yn helaeth gyda nifer o'n prif bartneriaid.

v. Nid yw'r ddogfen yn ceisio bod yn hollgynhwysol; yn hytrach, mae'n canolbwyntio ar yr hyn a ystyriwn yn brif flaenoriaethau o ran ein gwaith a'n gweledigaeth.

vi. Ar gyfer yr un flaenoriaeth ar ddeg, ceir yn gyntaf, er mwyn gosod y cyd-destun a'r cefndir, grynodeb o'r hyn a gyflawnwyd hyd yma. Yna rhestrir ein hamcanion a'r targedau cysylltiedig, ynghyd â'r prif flaenoriaethau gweithredu. Dylid nodi fod nifer o'r rhain yn ddibynnol ar waith sydd wedi ei arfaethu neu sydd eisoes ar y gweill; bwriedir felly adolygu'r cynllun yn gyson ac ychwanegu ato wrth i'r gwaith pellach hwn gael ei gyflawni, ac wrth i ganlyniadau'r gwaith gael eu dadansoddi.

i. This concise document sets out a strategic plan for the Welsh language. Its main motive is to ensure continuity for the Welsh Language Board's work and vision as most of the organisation's functions are incorporated into the Assembly Government by April 2007. It encompasses the period before this takes place, and looks forward also towards the following period prior to the publication of the 2011 Census results on the Welsh language.

ii. **The Future of Welsh - A Strategic Plan** is mainly based on what has been achieved by the Board and by its partners since the Board was established by the Welsh Language Act 1993. It outlines what the Board believes needs to be accomplished to see the Welsh language flourishing in a truly bilingual Wales, in terms of its status and the number of Welsh speakers and their use of the language.

iii. This document draws on a number of previous documents prepared by the Board: in particular, its annual Corporate Plans; the document **Strategy for the Welsh Language** published in December 1996 after wide consultation; and the analysis of language planning contained in the document **The Welsh Language: A Vision and Mission for 2000-2005** presented by the Board to the National Assembly in November 1999.

iv. The strategic plan is aimed at everyone who has a role to play in the formulation of policies affecting the Welsh language and bilingualism, and also at those who are seeking to implement those policies. We intend to discuss it extensively with several of our main partners.

v. The document does not attempt to be all-inclusive; rather, it concentrates on what we consider to be the main priorities as far as our work and vision are concerned.

vi. For the eleven priority areas, in order to set the context and background, we begin with a summary of what has been accomplished to date. Then we list our objectives and associated targets, together with our main implementation priorities. It should be noted that several of these depend on work which is already in hand or which

vii. Mae croesgyfeiriadau at Iaith Pawb, cynllun manwl Llywodraeth y Cynulliad ar gyfer creu Cymru ddwyieithog, ynghlwm wrth bob blaenoriaeth. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi rhoi'r pwys mwyaf ar y ddogfen honno wrth osod ei fframweithiau strategol dros y blynyddoedd diweddar, ac rydym yn rhagdybio mai un o brif swyddogaethau staff y Bwrdd o dan y drefn newydd fydd arwain y gwaith o fonitro'r cynnydd ar ei chamau gweithredu. Serch hynny, ers cyhoeddi'r ddogfen, mae o leiaf ddau newid pwysig iawn wedi digwydd: cyhoeddi canlyniadau cyfrifiad 2001 ar yr iaith Gymraeg; a'r penderfyniad i drosglwyddo swyddogaethau nifer o gyrff statudol, yn arbennig Bwrdd yr Iaith Gymraeg, i Lywodraeth y Cynulliad. Mae Iaith Pawb ei hun yn datgan y cynhelir adolygiad trylwyr ohoni yn ystod 2007, ond yn wyneb y newidiadau y cyfeiriwyd atynt, rydym o'r farn bod dadl gref dros ei diweddaru a'i hadolygu ynghynt.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Awst 2005

is proposed; the plan will therefore be reviewed and enhanced regularly as this further work is accomplished and its results are analysed.

vii. There are cross-references to Iaith Pawb, the Assembly Government's detailed plan for creating a bilingual Wales, for each priority. The Welsh Language Board has placed the highest emphasis on that document when setting its strategic frameworks during recent years, and we assume that one of the main functions of the Board's staff under the new structure will be to provide a lead in monitoring progress on its implementation. Even so, since the publication of the document at least two very important changes have occurred: the publication of the 2001 Census results on the Welsh language, and the decision to transfer the functions of several statutory bodies, in particular the Welsh Language Board, to the Assembly Government. Iaith Pawb itself states that there will be a thorough review of the document during 2007, but in view of the changes referred to, we believe that there is a strong case for updating and reviewing it earlier.

Welsh Language Board
August 2005

Cynllun Strategol_Strategic Plan

1 TROSGLWYDDIAD IAITH YN Y TEULU
LANGUAGE TRANSMISSION IN THE FAMILY

1.1 Cefndir

Y prif arf yn y maes yw'r prosiect arloesol Twf, sy'n weithredol ers 2001. Cychwynnodd yr ail gytundeb tair blynedd ar 1 Ebrill 2004. Prif nod Twf yw gwireddu un o bum targed allweddol Iaith Pawb ar gyfer 2011, sef **"bod cynnydd yng nghanran y teuluoedd lle mae'r Gymraeg yn brif iaith sgwrsio/ cyfathrebu rhwng oedolion a phlant ar yr aelwyd"**. Mae'n ceisio gwneud hynny drwy amryfal ddulliau, gan ddefnyddio rhwydwaith o staff sy'n gweithio'n benodol ar y prosiect. Mae'r rhain yn cynnwys swyddog datblygu cenedlaethol, nifer o swyddogion maes a leolir ledled Cymru, a swyddogion arbenigol eraill. Yn ôl data Cyfrifiad 2001, pan fydd dau riant yn siarad Cymraeg, mae 82% o blant 3-4 blwydd oed yn gwneud hynny hefyd; mae'r ganran yn gostwng i 40% pan fo dim ond un o ddau riant yn siarad Cymraeg.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
2.16, 2.40, 4.8, 4.30 (tud. 44), 4.42

1.1 Background

The main tool in this field is the innovative Twf project, active since 2001. The second three-year contract commenced on 1 April 2004. The main aim of Twf is to realise one of Iaith Pawb's five key targets for 2011, namely an increase in **"the percentage of families where Welsh is the main conversation/communication language between adults and children in the home"**. It attempts to do this in various ways, using a network of staff who work specifically on the project. These include a national development officer, several field officers located throughout Wales and other specialist officers. According to 2001 Census data, where both parents speak Welsh 82% of 3-4 year old children do so also; the percentage decreases to 40% when only one parent speaks Welsh.

Cross-references to Iaith Pawb:
2.16, 2.40, 4.8, 4.30 (p. 44), 4.42

1.2 Amcanion a Thargedau

- Perswadio rhieni i siarad Cymraeg gyda'u plant o'r cychwyn cyntaf.
- Cynyddu canran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg ac sydd ag un rhiant sy'n gallu siarad Cymraeg, o 40% i 45% erbyn 2011.
- Cynnal canran y plant 3-4 oed sy'n gallu siarad Cymraeg ac sydd â dau riant sy'n gallu siarad Cymraeg, ar 82% erbyn 2011.
- Cynorthwyo ac annog rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant.
- Cynyddu niferoedd y plant sy'n derbyn addysg feithrin cyfrwng Cymraeg.
- Cyfleu negeseuon am werth cyflwyno dwyieithrwydd i brif ffrwd gwaith bydwragedd a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill.
- Gorffen yr astudiaeth o draweffaith y prosiect erbyn diwedd 2007, ac adolygu ffurf a chynnwys y prosiect yn 2008 - 2011 yn ddibynnol ar ganlyniadau'r astudiaeth, ynghyd â'r prif darged yn Iaith Pawb.

1.2 Objectives and Targets

- Persuade parents to speak Welsh with their children from the outset.
- Increase the percentage of 3-4 year olds who can speak Welsh and who have one parent that can speak Welsh from 40% to 45% by 2011.
- Maintain the percentage of 3-4 year olds who can speak Welsh and who have two parents that can speak Welsh at 82% by 2011.
- Help and encourage parents to choose Welsh medium education for their children.
- Increase the number of children receiving Welsh medium nursery education.
- Convey messages about the value of introducing bilingualism into the mainstream of midwives' and other professional health workers' work.
- Complete the study on the project's impact by the end of 2007 and revise the form and content of the project in 2008 - 2011 based on the outcome of the study in conjunction with the main target in Iaith Pawb

Cynllun Strategol_Strategic Plan

1.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Gweithredu'r prosiect Twf yn unol â'r cytundebau tair blynedd a lunnir ar gyfer yr asiant sy'n gyfrifol am y prosiect; cynnal astudiaeth tair blynedd o draweffaith y prosiect; ac ailasesu a chymhwyso'r prosiect yn unol â'r ymchwil hwnnw.
- Ehangu'r prosiect drwy wneud ceisiadau am arian Ewropeaidd i benodi mwy o swyddogion maes.
- Cydweithio â sefydliadau/Ymddiriedolaethau/ colegau hyfforddi iechyd er mwyn dod â negeseuon am werth dwyieithrwydd i mewn i hyfforddiant bydwragedd a gweithwyr iechyd eraill, ac i mewn i'r wybodaeth sy'n cael ei rhannu i rieni a darpar rieni.
- Cydweithio â sefydliadau addysgol i gynnwys gwybodaeth am fanteision magu plant yn ddwyieithog ym mhrif ffrwd addysg, fel y bo'r prosiect yn ymestyn i rieni Cymraeg a di-Gymraeg fel ei gilydd.
- Marchnata'n frwd ddarpariaeth addysg feithrin cyfrwng Cymraeg.

1.3 Implementation Priorities

- Continue the Twf project in accordance with three year contracts drawn up for the agent responsible for the project; conduct a three year study of the project's impact; and reassess and adapt the project in accordance with that research.
- Extend the project by making bids for European funding to appoint more field officers.
- Work in conjunction with establishments/Trusts/ health training colleges in order to include messages about the value of bilingualism in midwives' and other health workers' training, and in the information given to parents and prospective parents.
- Co-operate with educational institutions to include information about the advantages of bringing up children bilingually in mainstream education, so that the project extends equally to both Welsh and non-Welsh speaking parents.
- Market Welsh medium nursery education provision enthusiastically.



2 PLANT 0 - 7 MLWYDD OED
CHILDREN AGED 0 - 7

2.1 Cefndir

Dwy ffordd sydd i ddod yn siaradwr Cymraeg: dysgu'r iaith gartref drwy gyfrwng y teulu, neu ei dysgu drwy addysg, yr ysgol, a dysgu gydol oes. Yr ail gyfrwng sydd yn bennaf cyfrifol am y cynnydd sylweddol yn nifer y siaradwyr Cymraeg ymysg plant oed ysgol dros y degawdau diweddar, a does dim dwywaith mai'r blynyddoedd cynnar yw'r cyfnod rhwyddaf i gaffael iaith. Mae Iaith Pawb yn rhoi'r pwys mwyaf ar hyn i gyd drwy gynnwys fel un o'r pum targed allweddol ar gyfer 2011 **"cynnydd yng nghanran y plant sy'n derbyn addysg cyn-ysgol drwy gyfrwng y Gymraeg"**. Y prif bartner yn y maes hyd yma yw Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) ond mae swyddogaeth y partneriaid eraill, yn arbennig y sector statudol, yn debygol o gynyddu dros y blynyddoedd nesaf o ran plant hŷn, gyda MYM yn canolbwyntio fwyfwy ar y blynyddoedd iau. Mae'r cynllun Twf hefyd â swyddogaeth ganolog i berswadio rhieni i ddewis addysg cyfrwng Cymraeg i'w plant o'r cychwyn cyntaf. Y datblygiad pwysicaf sy'n debygol o yrru'r maes yn ei flaen yw'r Adolygiad o Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg a gomisiynwyd gan Lywodraeth y Cynulliad yn 2003-04.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
2.16, 4.7 – 4.10, 4.30 (tud. 44), 4.42

2.2 Amcanion a Thargedau

- Cynyddu nifer y plant sy'n derbyn addysg Gymraeg yn 7 oed.
- Cydlynu negeseuon am werth dwyieithrwydd a marchnata'r ddarpariaeth ar draws y sefydliadau a'r prosiectau y mae'r Bwrdd yn eu hariannu, yn arbennig Twf a Mudiad Ysgolion Meithrin.
- Sicrhau cost-effeithiolrwydd y ddarpariaeth er mwyn gwella dilyniant i'r cyfnod nesaf.
- Codi safon ieithyddol y ddarpariaeth er mwyn sicrhau fod sgiliau ieithyddol y plant yn gwella.
- Cwblhau adolygiad o MYM yn 2007, gan ganolbwyntio ar fesur cyrhaeddiad y ddarpariaeth, ei safon, a'r dilyniant ohoni; dylai gynnwys gosod targedau meintiol i MYM o ran cynnydd yn nifer y plant sy'n mynychu ei gylchoedd ac yn llwyddo i ddysgu Cymraeg.

2.1 Background

There are two ways of becoming Welsh speakers: learning the language at home through the family, or learning it through education, school, and lifelong learning. The second means is principally responsible for the substantial increase in the number of Welsh speakers amongst school children over the last decades and there is no doubt that the early years is the easiest period for language acquisition. Iaith Pawb places great emphasis on all of this by including as one of the five key targets for 2011, to increase **"the percentage of children receiving Welsh medium pre-school education"**. The main partner in this field at the moment is Mudiad Ysgolion Meithrin (MYM) but the involvement of other partners, especially the statutory sector, is likely to increase over the next few years as far as older children are concerned, with MYM concentrating more and more on the earlier years. The Twf project also has a central function in persuading parents to choose Welsh medium education for their children from the outset. The most important development which is likely to drive this field forward is the Review of Welsh Medium Early Years Provision commissioned by the Assembly Government in 2003-04.

Cross-references to Iaith Pawb:
2.16, 4.7 – 4.10, 4.30 (p. 44), 4.42



2.2 Objectives and Targets

- Increase the number of 7 year olds who receive Welsh medium education.
- Co-ordinate messages about the value of bilingualism, and market the provision across the institutions and projects which the Board funds, especially Twf and MYM.
- Ensure the cost-effectiveness of the provision in order to improve progression to the next stage.
- Raise the linguistic standard of the provision, in order to ensure that children's language skills improve.
- Complete a review of MYM in 2007 with emphasis on measuring the provision's attainment, quality and progression; it should include setting quantitative targets for MYM relating to increasing the number of children attending its groups and successfully learning Welsh.

- Yn dilyn ystyriaeth lawn o'r Adolygiad o Ddarpariaeth Blynyddoedd Cynnar Cyfrwng Cymraeg, gosod targedau meintiol pellach yn 2007, gan gynnwys targed ar gyfer y trosglwyddiad o addysg feithrin i addysg gynradd cyfrwng Cymraeg.
- Adolygu targed Iaith Pawb yn 2007 o ran maint y cynnydd yr ydym yn ei ragweld yn 2011.

2.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i weithio mewn partneriaeth â'r holl ddarparwyr yn y maes.
- Hyrwyddo'n frwd addysg cyfrwng Cymraeg yn y blynyddoedd cynnar, yn arbennig drwy ddyrannu grantiau i MYM, a thrwy ddulliau eraill, yn unol ag ystyriaeth Llywodraeth y Cynulliad o'r ddarpariaeth yn y maes.
- Cytuno ar ddulliau gweithredu yn sgil argymhellion arolwg cynhwysfawr Llywodraeth y Cynulliad o'r ddarpariaeth yn y blynyddoedd cynnar, eu blaenoriaethu, a'u rhoi ar waith.
- Gweithredu ar sail canlyniadau'r arolwg o MYM, mewn partneriaeth â'r Mudiad.



- Following full consideration of the Welsh Medium Early Years Provision Review, set further quantitative targets in 2007 including a target for progression from nursery education to Welsh medium primary education.
- Review the target in Iaith Pawb in 2007 regarding the increase expected in 2011

2.3 Implementation Priorities

- Continue to work in partnership with all providers in the field.
- Enthusiastically promote Welsh medium education in the early years, especially by giving grants to MYM and by other means, in accordance with the Assembly Government's consideration of provision in the field.
- Agree on implementation methods, following the recommendations of the National Assembly Government's comprehensive review of early years provision, then prioritise and implement them.
- Act on the findings of the review of MYM in partnership with the organisation.

Cynllun Strategol_Strategic Plan

3 ADDYSG A HYFFORDDIANT CYMRAEG A DWYIEITHOG
WELSH LANGUAGE AND BILINGUAL EDUCATION AND TRAINING

3.1 Cefndir

Rhaid gweld swyddogaeth y Bwrdd o gadw gorolwg strategol dros addysg a hyfforddiant Cymraeg a dwyieithog fel rhan o fframwaith strategol ehangach Llywodraeth y Cynulliad y cyfeirir ato yn Iaith Pawb, yn arbennig yr amcan o geisio **"ymestyn mynediad i addysg cyfrwng Cymraeg gyda phwyslais cychwynnol ar y sectorau blynyddoedd cynnar ac ar ôl 16"**. Cyhoeddodd y Bwrdd ym mis Tachwedd 2004 strategaeth gynhwysfawr ar gyfer addysg a hyfforddiant cyfrwng Cymraeg a dwyieithog sy'n seiliedig ar ei arbenigedd a'i brofiad helaeth yn y maes. Yn sgil trafodaethau arni gyda nifer o'n prif bartneriaid, penderfynwyd mai'r brif flaenoriaeth ar gyfer y dyfodol fydd rhoi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ar nifer gyfyngedig o feysydd penodol, mewn cydweithrediad â'r Adran Addysg a Hyfforddiant. O ran ein dyletswyddau statudol penodol, bellach mae Cynlluniau Addysg Cymraeg gwreiddiol yr holl Awdurdodau Addysg Lleol yn weithredol, ac mae'r gwaith yn mynd rhagddo ar hyn o bryd i gymeradwyo ail gyfres

3.1 Background

The Board's strategic overview function for Welsh language and bilingual education and training must be seen as part of the Assembly Government's wider strategic framework which is referred to in Iaith Pawb, especially the objective of **"extending access to Welsh medium education with initial emphasis on early years and post-16 sectors"**.
The Board published a comprehensive strategy for Welsh medium and bilingual education and training in November 2004 which is based on its expertise and extensive experience in the field. Following discussions on the strategy with several of our main partners, it was decided that the main priority in future will be providing advice to the Assembly Government on a limited number of specific fields, in co-operation with the Education and Training Department. As far as our specific statutory duties are concerned, by now Local Education Authorities' initial Welsh Education Schemes are all operational, and work is currently under way to approve a second series of Schemes. When these second Schemes

o Gynlluniau. Pan gwblheir yr ail Gynlluniau hyn, bydd gennym well darlun cenedlaethol o'r galw am addysg cyfrwng Cymraeg, a sut y bwriada'r AALlau ddiwallu'r galw'n llawn. Mae Iaith Pawb yn nodi'n benodol bwysigrwydd sicrhau fod cynlluniau trefniadaeth ysgolion yn cymryd Cynlluniau Addysg Gymraeg i ystyriaeth: **"Byddwn yn edrych eto ar yr arweiniad mewn perthynas â Chynllun Trefniadaeth Ysgolion AALlau i sicrhau gwell cydlynedd a chysondeb rhyngddynt a Chynlluniau Addysg Gymraeg. Trwy hyn sicrheir fframwaith eglurach i awdurdodau lleol wrth iddynt gynllunio ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog."**

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
2.30, 2.31, 2.37, 2.40, 4.1 – 4.30 (tud. 37-47)

are completed, we will have a better national picture of demand for Welsh medium education, and of how LEAs intend to fully meet this demand. Iaith Pawb specifically refers to the importance of ensuring that schools' organisation plans take Welsh Education Schemes into consideration: **"We shall be re-examining the guidance in relation to LEA School Organisation Plans to ensure greater coherence and consistency between them and Welsh Language Education Schemes. This will secure a clearer framework for local authorities in planning for Welsh medium and bilingual provision."**

Cross-references to Iaith Pawb:
2.30, 2.31, 2.37, 2.40, 4.1 – 4.30 (p. 37-47)

3.2 Amcanion a Thargedau

- Sicrhau fod gorolwg barhaus ar y meysydd addysg a hyfforddiant o safbwynt anghenion a ffyniant y Gymraeg, yn y cyd-destun ehangach o wireddu nod Llywodraeth y Cynulliad o greu Cymru wirioneddol ddwyieithog.
- Darparu cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ar ddau faes addysg a hyfforddiant bob blwyddyn, o 2005 ymlaen, gan gynnwys argymhellion ar gyfer gweithredu a thargedau meintiol i fesur effeithiolrwydd a thraweffaith.
- Sicrhau twf yn y ddarpariaeth i ateb y galw, gyda'r nod o sicrhau fod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog ar gael yn llawn.
- Annog AALlau i fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg yn eu hardaloedd, ac ateb y galw'n llawn o fewn pellter rhesymol i'r cartref.
- Annog rhieni i sicrhau fod eu plant yn parhau i ddilyn pynciau drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog wrth iddynt symud o un cyfnod allweddol i'r llall.
- Paratoi Strategaeth Marchnata Addysg yn 2006, a fydd yn cynnwys targedau meintiol

3.2 Objectives and Targets

- Ensure that there is a continuous overview of education and training from the standpoint of the needs and growth of the Welsh language, in the wider context of realising the Assembly Government's aim of creating a truly bilingual Wales.
- Provide advice to the Assembly Government on two education and training fields each year from 2005 onwards, including recommendations for action and quantitative targets to measure effectiveness and impact.
- Ensure that growth in provision meets the demand, with the aim of ensuring that Welsh medium and bilingual provision is fully available.
- Encourage LEAs to measure the demand for Welsh medium education in

i fesur traweffaith yr ymgyrchoedd sy'n anelu at gynyddu nifer y rhieni sy'n dewis addysg Gymraeg i'w plant, a chynnydd mewn dilyniant o un cyfnod allweddol i'r llall.

- Cymeradwyo'r Ail Gynlluniau Addysg Gymraeg i gyd erbyn diwedd Mawrth 2007.
- Asesu, erbyn 2010, draweffaith gweithredu'r Cynlluniau Addysg Gymraeg ar gynyddu'r niferoedd sy'n derbyn addysg Gymraeg, ac ar ddilyniant rhwng un cyfnod allweddol a'r llall.

3.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Datblygu meysydd blaenoriaeth yn deillio o'r Strategaeth Addysg a Hyfforddiant bresennol, a pharatoi cyngor i Lywodraeth y Cynulliad ar y meysydd a bennir, a chynnig camau ymarferol i'w gweithredu. Y meysydd blaenoriaeth dan ystyriaeth yw'r canlynol: Addysg / gofal 0-2 oed; y Cyfnod Sylfaen 3-7 oed; plethiad rhwng Cynlluniau Trefniadaeth Ysgolion a Chynlluniau Addysg Gymraeg yr AALlau; Cymraeg ail iaith; Sgiliau Dwyieithog; Gyrfaoedd Dwyieithog; Hyfforddi Athrawon; Cymraeg i Oedolion.
- Darganfod gwell dulliau o fesur y galw am addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog, a gwneud dadansoddiad manwl o beth

their areas and fully meet the demand within a reasonable distance from the home.

- Encourage parents to ensure that their children continue to study subjects through the medium of Welsh or bilingually when they move from one key stage to the next.
- Prepare an Education Marketing Strategy in 2006, which will include quantitative targets measuring the impact of campaigns designed to increase the number of parents who choose Welsh medium education for their children, and increasing progression from one key stage to the next.
- Approve all second Welsh Education Schemes by the end of March 2007.
- Assess, by 2010, the impact of implementing the Welsh Education Schemes on the increase in the numbers receiving Welsh medium education, and on progression from one key stage to the next.

3.3 Implementation Priorities

- Develop priority fields arising from the existing Strategy for Education and Training, and prepare advice for the Assembly Government on the fields specified and offer practical steps

yw 'pellter rhesymol o'r cartref'.

- Monitro'n barhaus weithredu Cynlluniau Addysg Gymraeg AALlau er mwyn sicrhau fod y galw am addysg Gymraeg a dwyieithog yn cael ei ddiwallu'n llawn.
- Darparu cyngor i'r Cynulliad Cenedlaethol ynglŷn â diffinio darpariaeth cyfrwng Cymraeg, gyda'r nod o bennu fframwaith cyffredin i gynllunio'n strategol.
- Gweithredu'r Strategaeth Marchnata Addysg.

to implement them. The priority fields under consideration are: Education /care 0-2 years; the Foundation Stage 3-7 years; consistency between LEA School Organisation Plans and Welsh Education Schemes; Welsh as a second language; Bilingual Skills; Bilingual Careers; Teacher Training; Welsh for Adults.

- Discover better methods of measuring the demand for Welsh medium and bilingual education, and conduct a detailed analysis of what is 'a reasonable distance from the home'.
- Monitor continuously the implementation of LEAs' Welsh Education Schemes to ensure that the demand for Welsh medium and bilingual education is being fully met.
- Provide advice to the National Assembly on the definition of Welsh medium provision, with the aim of setting a common framework for strategic planning.
- Implement the Education Marketing Strategy.

4 DEFNYDDIO'R GYMRAEG GAN BOBL IFANC
USE OF WELSH BY YOUNG PEOPLE

4.1 Cefndir

Dywed Iaith Pawb: **"Mae Llywodraeth y Cynulliad yn ymwybodol iawn, os yw'r Gymraeg yn mynd i ffynnu fod angen i bobl ifanc yn enwedig ddatblygu ymdeimlad o berchnogaeth o'r iaith a'i gweld fel eu hiaith hwy ac nid iaith yr ysgol a diwylliant yn unig."** Bu i Fwrdd yr Iaith Gymraeg hefyd bennu pobl ifanc fel un o'i brif grwpiau targed. I'r perwyl hwn, mae strategaeth yn cael ei llunio ar hyn o bryd i gynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg. Hyd yma, bu'r pwyslais ar dri maes penodol: clybiau'r mudiad Ffermwyr Ifanc; canu pop a roc Cymraeg; a chwaraeon drwy gyfrwng y Gymraeg. Bwriedir hefyd gwmpasu meysydd pellach, megis y celfyddydau perfformio a defnyddio'r Gymraeg yn yr ysgol y tu hwnt i'r dosbarth. Yn ogystal, dyrennir grantiau i fudiadau sydd yn gweithio gyda phobl ifanc, yn arbennig Urdd Gobaith Cymru a'r Mentrau Iaith; mae'r Cynlluniau Gweithredu Iaith hefyd â swyddogaeth greiddiol yn y maes.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
4.38 – 4.41, Camau gweithredu (tud. 52)

4.1 Background

Iaith Pawb states: **"The Assembly Government is acutely aware that if Welsh is to flourish, young people in particular need to develop a sense of ownership of the language and to see it as their language and not simply the language of school and culture."** The Welsh Language Board has also identified young people as one of its main target groups. To this end, a strategy is currently being prepared to increase the social use of the Welsh language by young people. So far, the emphasis has been on three specific areas: Young Farmers' Clubs; Welsh language pop and rock music; and sport through the medium of Welsh. Further areas will be included, such as the performing arts, and using Welsh in school outside the classroom. In addition, grants will be distributed to organisations which work with young people, such as the Urdd and the Mentrau Iaith; the Language Action Plans also have a key function in this field.

Cross-references to Iaith Pawb:
4.38 – 4.41, Actions (p. 52)

Cynllun Strategol_Strategic Plan

4.2 Amcanion a Thargedau

- Cynyddu defnydd cymdeithasol pobl ifanc o'r Gymraeg.
- Cynyddu cyfleoedd cymdeithasol i bobl ifanc ddefnyddio'r Gymraeg.
- Meithrin ymdeimlad o berchnogaeth y Gymraeg ymysg pobl ifanc.
- Ehangu'r ddarpariaeth ieuenctid cyfrwng Cymraeg gan gyrff cyhoeddus, yn uniongyrchol neu drwy bartneriaeth.
- Cwblhau'r Strategaeth Ieuenctid yn 2005: bydd targedau a threfniadau gwerthuso ynghlwm wrth bob prosiect fydd yn deillio o gynllun gweithredu'r Strategaeth, a rhoddir blaenoriaeth i fesur yn gyfannol draweffaith y prosiectau ar ddefnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc.

4.2 Objectives and Targets

- Increase the social use of Welsh by young people.
- Increase social opportunities for young people to use Welsh.
- Develop a feeling of ownership of Welsh amongst young people.
- Extend Welsh medium youth provision by public bodies, directly or through partnership.
- Complete the Youth Strategy in 2005: there will be targets and evaluation arrangements associated with every project arising from the Strategy's action plan; priority will be given to holistically measuring the impact of the projects on the use of Welsh by young people.

4.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i gydweithio gyda phartneriaid cyfredol yn y maes.
- Gweithredu'r Strategaeth Ieuenctid sy'n cael ei llunio.
- Dyrannu grantiau i'n partneriaid, yn arbennig yr Urdd, i gynyddu defnyddio'r Gymraeg gan bobl ifanc, yn unol â'r Strategaeth Ieuenctid.
- Datblygu targedau ar gyfer cyrff cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau ar gyfer pobl ifanc, a darparu arweiniad i'r cyrff hynny.

4.3 Implementation Priorities

- Continue to work with existing partners in this area.
- Implement the Youth Strategy which is being prepared.
- Distribute grants to our partners, especially the Urdd, to increase the use of Welsh amongst young people, in accordance with the Youth Strategy.
- Develop targets for public bodies with responsibility for providing services for young people, and provide guidance for those bodies.

5 HYRWYDDO A HWYLUSO DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y GYMUNED
PROMOTING AND FACILITATING THE USE OF WELSH IN THE COMMUNITY

5.1 Cefndir

Mae Iaith Pawb yn cydnabod fod iechyd yr iaith ar lefel gymunedol yn greiddiol i'w dyfodol, yn arbennig felly drwy gynnwys, fel un o'r pum targed allweddol ar gyfer 2011, sicrhau fod **"y lleihad yn nifer y cymunedau lle mae'r Gymraeg yn cael ei siarad gan dros 70% o'r boblogaeth yn cael ei atal"**. Mae'r ddogfen, yn ogystal, yn cydnabod cyfraniad pwysig mentrau cymunedol fel y Mentrau Iaith a'r Cynlluniau Gweithredu Iaith yn y gwaith o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Dyma faes lle mae Cymru'n arwain ar lefel gydwladol. Bellach, drwy symbyliad y cymunedau yn ogystal â chefnogaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg a rhai Cynghorau Sir, mae 25 Menter Iaith yn weithredol ar draws y wlad ac 11 Cynllun Gweithredu Iaith yn weithredol mewn ardaloedd o arwyddocâd ieithyddol arbennig. (Mae'r Cynlluniau Gweithredu hyn yn cydlynu gweithgareddau ar gyfer pobl leol a sefydliadau yn yr ardal ar sail adnabod amgylchiadau ac anghenion lleol. Mae prosiect cysylltiedig newydd gychwyn yn Llŷn, gyda'r nod

5.1 Background

Iaith Pawb acknowledges that the health of the language on a community level is essential to its future, especially by including, as one of the five key targets for 2011, the aspiration that **"the decline in the number of communities where Welsh is spoken by over 70% of the population is arrested'**. The document also acknowledges the important contribution of community enterprises such as the Mentrau Iaith and the Language Action Plans in the work of promoting and facilitating the use of Welsh in the community. This is an area in which Wales leads the way on an international level. By now, as a result of the initiative of the communities, as well as the support of the Welsh Language Board and some County Councils, there are 25 Mentrau Iaith throughout Wales and 11 Language Action Plans active in areas of special linguistic significance. (These Action Plans co-ordinate activities for local people and institutions in the area, based on identifying local circumstances and needs. A related project has just started in Llŷn, with the special aim of testing different methods of

arbennig o arbrofi gyda gwahanol ddulliau cymathu mewnfudwyr drwy gyfrwng **animateurs** bro.) Yn ogystal â hyrwyddo defnyddio'r Gymraeg mewn cymunedau ledled Cymru, rhan bwysig o'r gwaith yw codi ymwybyddiaeth newydd-ddyfodiaid i'r ardaloedd.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
2.16, 2.40, 3.29 – 3.32, Camau gweithredu (tud. 32)

5.2 Amcanion A Thargedau

- Cryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol, drwy annog a chefnogi amryfal ddulliau effeithiol o hyrwyddo a hwyluso defnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- Cryfhau'r cydlynu rhwng Mentrau a phartneriaid eraill (yn arbennig Gynghorau Sir â Mentrau'n gweithredu o fewn eu ffiniau, yr Urdd, yr Eisteddfod Genedlaethol, a Chynlluniau Gweithredu Iaith) er mwyn sicrhau eu bod yn rhannu'r un nodau ac amcanion i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- Cwblhau Strategaeth Ddatblygu ar gyfer yr 11 Cynllun Gweithredu Iaith yn 2007.
- Cwblhau asesiad o'r gwahanol gyfryngau a dulliau cynllunio ieithyddol cymunedol yn 2008, gan fesur eu traweffaith ar hyfywedd y Gymraeg mewn cymunedau, a datblygu prosiectau newydd yn seiliedig ar y canlyniadau.

integrating incomers by means of local **animateurs**.) As well as promoting the use of Welsh in communities throughout Wales, an important part of the work is raising awareness amongst newcomers to the areas.

Cross-references to Iaith Pawb:
2.16, 2.40, 3.29 – 3.32, Actions (p. 32)

5.2 Objectives And Targets

- Strengthen Welsh as a community language, by encouraging and supporting various effective methods of promoting and facilitating the use of Welsh in the community.
- Increase the level of co-ordination between Mentrau and other partners (especially County Councils with Mentrau operating within their boundaries, the Urdd, the National Eisteddfod, and Language Action Plans) to ensure that they share the same aims and the objective of strengthening Welsh as a community language.
- Complete a Development Strategy for the 11 Language Action Plans in 2007.
- Complete an assessment of the various methods and means of community language planning in 2008, measuring their impact on the vitality of the Welsh language in communities, and developing new projects based on its findings.

5.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i weithio gyda'r Mentrau Iaith a phartneriaid eraill i gryfhau'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
- Dyrannu grantiau'n flynyddol i'r Mentrau Iaith, a phartneriaid eraill, ar sail cynlluniau tair blynedd. Dylid teilwra'r cynlluniau i gyd-fynd ag anghenion cymdeithasol ac ieithyddol lleol, a dylent gynnwys targedau i fesur traweffaith eu gwaith ar ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned.
- Paratoi Strategaeth Ddatblygu ar gyfer yr 11 Cynllun Gweithredu Iaith a'i gweithredu.
- Parhau i arbrofi gyda dulliau newydd o gydlynu gweithgareddau ar lefel gymunedol, a pharatoi Asesiad o Ddulliau Cynllunio Ieithyddol Cymunedol a gweithredu arno.

5.3 Implementation Priorities

- Continue to work with Mentrau Iaith and other partners to strengthen Welsh as a community language.
- Distribute annual grants to the Mentrau Iaith and other partners on the basis of rolling three-year plans. Plans should be tailored to fit local social and linguistic needs and should include targets measuring the impact of their work on the use of Welsh in the community.
- Prepare and implement the Development Strategy for the 11 Language Action Plans.
- Continue to experiment with new ways of co-ordinating activities on a community level and prepare and act upon the Assessment of Community Language Planning Methods.

6 DEFNYDDIO'R GYMRAEG YN Y SECTOR PREIFAT
USING WELSH IN THE PRIVATE SECTOR

6.1 Cefndir

Un o brif amcanion Iaith Pawb yw ysgogi cynnydd yn y defnydd o'r Gymraeg ac yn ei hamlygrwydd ymhob agwedd ar fywyd bob dydd. Yn wir, un o bum targed allweddol y ddogfen ar gyfer 2011 yw ei gwneud hi'n bosibl **"i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg"**. Mae'r sector preifat yn dipyn mwy amryfal na'r sectorau eraill, ac yn cyffwrdd yn amlach ar fywydau beunyddiol pobl gyffredin. Mae dwy elfen i hybu'r Gymraeg yn y sector: codi ei phroffil gweledol, a chynyddu'r defnydd ohoni mewn busnesau a rhwng busnesau a'u cwsmeriaid. Mae tipyn o gynnydd wedi digwydd yn y meysydd hyn dros y ddegawd ddiwethaf, ond nid yw'n hawdd asesu maint y ddarpariaeth a'r defnydd cynyddol o'r iaith. Mae felly angen datblygu Strategaeth Sector Preifat ar gyfer y maes, a fyddai'n cynnwys arolwg cynhwysfawr o'r ddarpariaeth bresennol.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
2.16, 2.40, 4.42, 4.43, Camau gweithredu (tud. 52)

6.1 Background

One of the main objectives of Iaith Pawb is to bring about an increase in the use and prominence of Welsh in all aspects of everyday life. In fact, one of the five key targets for 2011 is to have **"more services, by public, private and voluntary organisations... delivered through the medium of Welsh".** The private sector is much more varied than the other sectors and touches the daily lives of ordinary people more often. There are two elements to promoting Welsh in the private sector: raising its visual profile and increasing its use within businesses and between businesses and their customers. There has been progress in these areas over the past ten years but it is not easy to assess the scale of increased provision and use of the language. A Private Sector Strategy for the field needs to be developed, therefore, which would include a comprehensive review of current provision.

Cross-references to Iaith Pawb:
2.16, 2.40, 4.42, 4.43, Actions (p. 52)

6.2 Amcanion a Thargedau

- Cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y sector preifat, drwy hyrwyddo manteision y Gymraeg, annog cwmnïau sy'n defnyddio'r iaith i wneud mwy o ddefnydd ohoni, annog cwsmeriaid i ofyn am wasanaethau Cymraeg a'u defnyddio a thrwy ei gwneud yn hawdd i gwsmeriaid weld fod gwasanaeth Cymraeg ar gael.
- Cydweithio gyda phartneriaid a phartïon eraill i gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y sector a chodi ymwybyddiaeth o fanteision y Gymraeg i fusnesau a gweithwyr cyflog.
- Cwblhau Strategaeth Sector Preifat a Chynllun Gweithredu yn 2005, a fydd yn asesu'r ddarpariaeth gyfredol, gosod blaenoriaethau ar gyfer gweithredu yn y dyfodol, a cheisio mesur traweffaith pob ymgyrch ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg.
- Datblygu o leiaf dri phrosiect bob blwyddyn o 2006 ymlaen, yn unol â'r Strategaeth Sector Preifat a'r Cynllun Gweithredu, gyda thargedau meintiol wedi'u gosod ar gyfer pob prosiect i fesur ei draweffaith ar ddefnyddio'r Gymraeg gan fusnesau, gweithwyr cyflog, a chwsmeriaid.

6.2 Objectives and Targets

- Increase the use of Welsh in the private sector, by promoting the advantages of Welsh, encouraging companies who use the language to make more use of it, encouraging customers to ask for and use Welsh language services and by making it easy for customers to see that a Welsh language service is available.
- Work with partners and interested parties to increase the use of Welsh in the sector and raise awareness of the advantages of Welsh to businesses and employees.
- Complete a Private Sector Strategy and Action Plan in 2005, which will assess current provision, set priorities for future action, and seek to measure the impact of each campaign on increasing the use of Welsh.

6.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i gydweithio gyda busnesau unigol a phartneriaid eraill.
- Datblygu partneriaethau hirdymor gyda sefydliadau eraill yn y sector preifat.
- Gweithredu'r Strategaeth Sector Preifat.
- Gweithredu a datblygu'r Cynllun Gweithredu ar gyfer y sector preifat.
- Gweithredu a datblygu'r prosiectau unigol sy'n deillio o'r Cynllun Gweithredu.

- Develop at least three projects annually from 2006 onwards, based on the Private Sector Strategy and Action Plan, each with quantifiable targets measuring impact on the use of the Welsh language by businesses employees and customers.

6.3 Implementation Priorities

- Continue to work with individual businesses and other partners.
- Develop long-term partnerships with other organisations in the private sector.
- Implement the Private Sector Strategy.
- Implement and develop the Private Sector Action Plan.
- Implement and develop the individual projects arising from the Action Plan.

7 CYNLLUNIAU IAITH GYMRAEG, A DATBLYGU A DARPARU GWASANAETHAU YN Y GYMRAEG
WELSH LANGUAGE SCHEMES AND DEVELOPING AND PROVIDING SERVICES IN THE WELSH LANGUAGE

7.1 Cefndir

Prif swyddogaeth statudol benodol Bwrdd yr Iaith Gymraeg yw cadw gorolwg dros baratoi a gweithredu Cynlluniau Iaith Gymraeg a darpariaeth gwasanaethau dwyieithog, yn unol â thelerau Deddf yr Iaith Gymraeg 1993. Bydd y swyddogaeth hon yn parhau wrth i swyddogaethau'r Bwrdd gael eu hymgorffori yn Llywodraeth y Cynulliad. (Bydd elfen o annibyniaeth, serch hynny, ynghlwm wrth swyddogaeth rheoleiddio'r Bwrdd yn y maes.) Mae Iaith Pawb yn gosod fel un o'r pum targed allweddol ar gyfer 2001: ei gwneud hi'n bosibl **"i gyrff cyhoeddus, preifat a gwirfoddol ddarparu mwy o wasanaethau trwy gyfrwng y Gymraeg"**. Mae'r ddogfen hefyd yn rhoi pwyslais penodol ar gryfhau monitro ac adolygu Cynlluniau Iaith Gymraeg.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
2.31, 2.37, 2.40

7.1 Background

The main specific statutory function of the Welsh Language Board is to keep an overview on the preparation and implementation of Welsh Language Schemes and the provision of bilingual services, in accordance with the terms of the Welsh Language Act 1993. This duty will remain as the functions of the Board are incorporated into the Assembly Government. (Nevertheless, there will be an element of independence associated with the Board's regulatory function in the field.) Iaith Pawb sets as one of its five key targets for 2001: **"more services by public, private and voluntary organisations are able to be developed through the medium of Welsh"**. The document also places specific emphasis on strengthening the monitoring and reviewing of Welsh Language Schemes.

Cross-references to Iaith Pawb:
2.31, 2.37, 2.40

7.2 Amcanion a Thargedau

- Sicrhau fod Cynlluniau Iaith Gymraeg cyrff cyhoeddus, cyrff y Goron, a chyrff eraill yn gweithredu'r egwyddor statudol, wrth ddarparu gwasanaethau i bobl Cymru, y dylid trin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.
- Cymeradwyo o leiaf 50 Cynllun Iaith Gymraeg yn flynyddol.
- Monitro ac adolygu 200 Cynllun Iaith Gymraeg yn flynyddol.
- Sicrhau fod y cyhoedd dwyieithog yn ymwybodol o'r gwasanaethau hyn.
- Cynorthwyo cyrff i ddatblygu eu darpariaeth o wasanaethau Cymraeg ac i rannu enghreifftiau o arferion da gyda chyrff a sefydliadau eraill.
- Cwblhau Asesiad o draweffaith Cynlluniau Iaith Gymraeg ar ddefnyddwyr dwyieithog, ar agweddau yn y gweithle, ac ar bolisïau cyrff cyhoeddus, erbyn 2007.
- Darparu canllawiau ar bartneriaethau.

7.2 Objectives and Targets

- Ensure that the Welsh Language Schemes of public bodies, Crown bodies and other bodies implement the statutory principle that, in providing services to the people of Wales, Welsh and English should be treated on the basis of equality.
- Approve at least 50 Welsh Language Schemes annually.
- Monitor and review 200 Welsh Language Schemes annually.
- Ensure that the bilingual public are aware of these services.
- Assist bodies to develop their provision of Welsh language services and to share examples of best practice with other bodies and organisations.
- Complete an Assessment of the impact of Welsh Language Schemes on bilingual consumers, on attitudes within the workforce, and on public bodies' policies by 2007.
- Provide guidelines on partnerships.

7.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i gymeradwyo Cynlluniau Iaith newydd, ac i fonitro ac adolygu Cynlluniau Iaith sydd eisoes mewn grym, o flwyddyn i flwyddyn.
- Magu perthynas ddatblygol hirdymor gyda chyrff, yn seiliedig ar eu Cynlluniau Iaith statudol ac ar egwyddorion prif-ffrydio.
- Cydweithio gyda chyrff unigol i farchnata gwasanaethau Cymraeg fel y bydd y cyhoedd yn eu defnyddio.
- Cydweithio gyda chyrff ar brosiectau penodol yng nghyd-destun datblygu gwasanaethau dwyieithog, gan gynnwys: astudiaethau annibynnol ar ansawdd gwasanaethau Cymraeg a dwyieithog; darparu cyngor i gyflogwyr ar gynllunio sgiliau ieithyddol yn y gweithle; asesu ansawdd gweithredu cynlluniau sgiliau ieithyddol.
- Gweithredu ar gasgliadau'r Asesiad o draweffaith y Cynlluniau Iaith Gymraeg.

7.3 Implementation Priorities

- Continue to approve new Language Schemes, and to monitor and review Language Schemes already in force, from year to year.
- Establish long-term developmental relationships with bodies, based on their statutory Language Schemes and on mainstreaming principles.
- Work with individual bodies to market Welsh language services so that they are used by the public.
- Work with bodies on specific projects in the context of developing bilingual services including: independent studies of the quality of Welsh language and bilingual services; providing advice to employers on planning language skills in the workplace; assessing the quality of implementation of language skills plans.
- Act on the findings of the Assessment of the impact of Welsh Language Schemes.

8 NORMALEIDDIO DWYIEITHRWYDD
NORMALISING BILINGUALISM

8.1 Cefndir

Un o ymrwymiadau mwyaf arloesol Iaith Pawb o ran datblygu a normaleiddio dwyieithrwydd yw'r addewid gan Lywodraeth y Cynulliad i brif-ffrydio'r Gymraeg wrth ddatblygu polisi. Mae'r ymrwymiad hwn yn ymestyn y tu hwnt i'r Cynulliad ei hun i'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo. Ers 2002, mae llythyrau cylch gwaith pob un o'r cyrff hyn yn datgan fod prif-ffrydio yn berthnasol i'w fframweithiau datblygu polisi a chyflwyno rhaglenni. Mae Llywodraeth y Cynulliad, yn ogystal, yn annog prif-ffrydio gan y cyrff hynny - yn y sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol - sy'n gweithio mewn partneriaeth â hi. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg wedi parhau i gynnig cyngor ac arweiniad i Lywodraeth y Cynulliad, i Lywodraeth y Deyrnas Unedig, ac i gyrff cyhoeddus eraill, yng nghyd-destun polisïau cyhoeddus ac arferion gweithredu yng Nghymru. Yn unol â gofynion Iaith Pawb ac ystyriaethau eraill, rhoddir pwyslais arbennig ar y meysydd canlynol:

- prif-ffrydio'r Gymraeg gan gyrff cyhoeddus;
- y berthynas rhwng iaith a'r economi;
- effaith ieithyddol polisïau cynllunio;
- effaith mewnfudo ac allfudo poblogaeth;
- defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb:
2.22 – 2.28, 2.42, 2.43, Camau gweithredu (tud. 19)

8.2 Amcanion a Thargedau

- Dwyn y Gymraeg i brif ffrwd gwaith cyrff y sector cyhoeddus yng Nghymru ac ar lefel y DU, gan gynnwys gwaith awdurdodau lleol a chyrff cyhoeddus lleol eraill yng Nghymru.

8.1 Background

One of the most innovative commitments in Iaith Pawb regarding the development and normalisation of bilingualism is the Assembly Government's promise to mainstream the Welsh language in policy development. This commitment extends beyond the National Assembly itself to Assembly Sponsored Public Bodies. Since 2002, the remit letters of all of these bodies declare that mainstreaming is relevant to their policy development and their programme presentation frameworks. The Assembly Government also encourages mainstreaming by those bodies – in the public, private and voluntary sectors – that work in partnership with it. The Welsh Language Board has continued to offer advice and guidance to the Assembly Government, to the UK Government and to other public bodies, in the context of public policies and implementation practices in Wales. In accordance with the requirements of Iaith Pawb and other considerations, special emphasis is given to the following areas:

- mainstreaming the Welsh language by public bodies;
- the relationship between language and the economy;
- linguistic impact of planning policies;
- impact of inward migration and out-migration;
- using Welsh in the workplace.

Cross-references to Iaith Pawb:
2.22 – 2.28, 2.42, 2.43, Actions (p. 19)

8.2 Objectives and Targets

- Bring the Welsh language into the mainstream of public sector bodies' work, in Wales and on a UK basis, including the work of local authorities and other local public bodies in Wales.

- Datblygu a gweithredu strategaeth prif-ffrydio Llywodraeth y Cynulliad, a chynghori ac annog cyrff perthnasol yn y datblygiad hwn.
- Annog cyrff cyhoeddus i gynyddu'n sylweddol y cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Annog rhannu arferion da yng nghyd-destun prif-ffrydio'r Gymraeg.
- Paratoi canllawiau ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, yn 2006.
- Paratoi papur safbwynt ar effaith mewnfudo ac allfudo poblogaeth, yn 2006.
- Paratoi papurau safbwynt blynyddol o 2007 ymlaen er mwyn adnabod traweffaith ar ddatblygiad y Gymraeg, gan gynnwys y berthynas rhwng iaith a'r economi a thraweffaith ieithyddol polisïau cynllunio.
- Cwblhau adolygiad o brif-ffrydio yn 2007, a darparu cyngor pellach i gyrff ar brif-ffrydio yn 2008, yn seiliedig ar yr adolygiad.

- Develop and implement the Assembly Government's mainstreaming strategy, and advise and encourage relevant bodies in this development.
- Encourage public bodies to increase substantially the opportunities to use Welsh in the workplace.
- Encourage the sharing of good practice in the context of mainstreaming the Welsh language.
- Prepare guidelines on increasing the use of Welsh in the workplace in 2006.
- Prepare a position paper on the impact of inward migration and out-migration in 2006.
- Prepare annual position papers from 2007 in order to identify impact on the development of the Welsh language, including the relationship between language and the economy and the linguistic impact of planning policies.
- Complete a review of mainstreaming in 2007 and provide further advice to bodies on mainstreaming in 2008, based on the review.

Cynllun Strategol_Strategic Plan

8.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i roi cyngor i gyrff ar brif-ffrydio'r Gymraeg, cynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle, a rhannu arferion da.
- Marchnata'r canllawiau i gynyddu defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.
- Cydweithio â phartneriaid i baratoi papurau safbwynt ac i weithredu ar eu casgliadau mewn cydweithrediad â Llywodraeth y Cynulliad a chyrff eraill.
- Gweithredu ar yr adolygiad o brif-ffrydio a gweithredu ei argymhellion.

8.3 Implementation Priorities

- Continue to provide advice to bodies on mainstreaming of the Welsh language, increasing the use of Welsh in the workplace, and sharing good practice.
- Market the guidelines on increasing the use of Welsh in the workplace.
- Work with partners in preparing position papers and act on their findings in co-operation with the Assembly Government and other bodies.
- Act on the review of mainstreaming and implement its recommendations.

9 HYBU HAWLIAU IEITHYDDOL FEL RHAN O'R MAES CYFLE CYFARTAL
PROMOTING LANGUAGE RIGHTS AS PART OF THE EQUAL OPPORTUNITIES FIELD

9.1 Cefndir

Er bod pennod gyfan yn Iaith Pawb yn ymdrin â **"Yr Unigolyn a Hawliau Iaith"**, ni chrybwyllir ynddi hawliau ieithyddol yn y cyd-destun cyfle cyfartal o gwbl. Mae hyn yn rhyfedd bellach yn wyneb aelodaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg o Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol, a chydnabyddiaeth yr asiantaethau cydraddoldeb yng Nghymru fod hawliau ieithyddol yn perthyn i'r un agenda. Serch hynny, mae anwybodaeth ynglŷn ag iaith fel mater cyfle cyfartal yn parhau ac mae hyn yn creu ansicrwydd yng Nghymru.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb: Fel y nodir uchod mae Pennod 4 yn crybwyll **"Yr Unigolyn a Hawliau Iaith"**, ond nid yn y cyd-destun cydraddoldeb.

9.1 Background

Although a whole chapter of Iaith Pawb deals with **"The Individual and Language Rights"** there is no mention in it of language rights in the context of equal opportunities. This is strange in view of the Welsh Language Board's membership of the National Assembly's Equal Opportunities Committee and the acknowledgement by the equal opportunities agencies in Wales that language rights belong to the same agenda. However, ignorance about language as an equal opportunities issue continues and this creates uncertainty in Wales.

Cross-references to Iaith Pawb: As noted above, Chapter 4 refers to **"The Individual and Language Rights"**, but not in the context of equal opportunities.

9.2 Amcanion a Thargedau

- Sicrhau fod hawliau ieithyddol yn cael rhan ganolog yn y maes cyfle cyfartal yng Nghymru, a chodi ymwybyddiaeth cyrff ac unigolion o'r mater.
- Gwarchod iaith fel modd o fynegiant.
- Sicrhau cysondeb polisi yng Nghymru drwy gynnwys y Gymraeg fel elfen ganolog o'r agenda cydraddoldeb.
- Sicrhau fod cyrff cyhoeddus yn deall ac yn gweithredu'r swyddogaeth o hyrwyddo cydraddoldeb ieithyddol a thriniaeth deg.
- Sicrhau fod y sector cyhoeddus yng Nghymru yn cynnwys iaith yn ffurfiol ar eu hagenda cyfle cyfartal mewn papurau polisi, canllawiau a gweithdrefnau; sicrhau hefyd fod cyrff cyhoeddus yn buddsoddi mewn cynllunio ieithyddol bwriadus.
- Paratoi a dosbarthu taflen gyhoeddusrwydd yn 2005; bydd yr arlowg yn deillio ohoni yn cael ei gwblhau yn 2005.

9.2 Objectives and Targets

- Ensure that language rights are given a central place in the equal opportunities field in Wales, and raise awareness of the issue amongst bodies and individuals.
- Safeguard language as a means of expression.
- Ensure policy consistency in Wales, by including the Welsh language as a central element on the equalities agenda.
- Ensure that public bodies understand and implement the function of promoting language equality and fair treatment.
- Ensure that the public sector in Wales includes language formally on their equal opportunities agenda in policy papers, guidelines and procedures; also ensure that public bodies invest in purposeful language planning.
- A publicity leaflet will be prepared and distributed in 2005; the survey arising from it will also be completed in 2005.

- Paratoi canllawiau ar ddiogelu hawliau yn 2006. Yna asesu eu heffaith dros y blynyddoedd i ddod gyda phartneriaid eraill yn y maes cyfle cyfartal.

9.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i fynychu pob cyfarfod o Bwyllgor Cyfle Cyfartal y Cynulliad Cenedlaethol a chyfrannu i'w drafodaethau fel aelod sefydlog tra pery'r Bwrdd, a chwilio am ddulliau pellach i gyfrannu iddo wedi ymgorffori swyddogaethau'r Bwrdd o fewn Llywodraeth y Cynulliad.
- Parhau i gydweithio gyda chyrff cyfle cyfartal eraill, yng nghyswllt creu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol newydd.
- Cydweithio â chyrff cyfle cyfartal eraill, i baratoi canllawiau i ddiogelu hawliau ieithyddol y sawl sy'n dewis defnyddio'r Gymraeg.



- Guidelines to safeguard rights will be drawn up in 2006. Then their impact will be assessed over the following years with other partners in the equal opportunities field.

9.3 Implementation Priorities

- Continue to attend each meeting of the Assembly's Equal Opportunities Committee and contribute to its discussions as an established member as long as the Board exists, and seek other ways of contributing to it after the functions of the Board have been incorporated into the Assembly Government.
- Continue to co-operate with other equal opportunities bodies, in the context of creating the new Equalities and Human Rights Commission.
- Create, in conjunction with other equal opportunities bodies, guidelines to safeguard the language rights of those who choose to use the Welsh language.

Cynllun Strategol_Strategic Plan

10 TECHNOLEG GWYBODAETH A CHYNLLUNIO CORPWS
INFORMATION TECHNOLOGY AND CORPUS PLANNING

10.1 Cefndir

Mae'r Bwrdd wedi ymwneud o'r cychwyn cyntaf â chryfhau seilwaith y Gymraeg drwy hybu technoleg gwybodaeth, a hefyd gynllunio corpws, maes sy'n ymwneud, ymysg pethau eraill, â chyfieithu, safoni termau ac enwau lleoedd, a datblygu ffurf ar y Gymraeg sy'n boblogaidd, yn fuddiol, ac yn cael ei defnyddio. Y datblygiad diweddaraf o ran technoleg gwybodaeth oedd lansio, ar y cyd â chwmni Microsoft, Becynnau Rhyngwyneb Iaith i hwyluso defnyddio'r Gymraeg ar gyfrifiaduron. Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyfrannu tuag at gyfieithu Open Office i'r Gymraeg. Mae cynllunio corpws yn bwysig er mwyn gosod seilwaith i gefnogi gweithgareddau mewn sawl maes arall, yn enwedig o ran darparu rhai o'r adnoddau ieithyddol sydd eu hangen i hwyluso dwyieithrwydd a datblygu cyfleoedd newydd i ddefnyddio'r Gymraeg. Mae tipyn o waith arloesol wedi ei wneud yn barod yn y maes yng Nghymru, yn arbennig gan Fwrdd yr Iaith Gymraeg, gan Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru, a chan Ganolfan Bedwyr a'r Ganolfan Ymchwil Enwau Lleoedd ym Mhrifysgol Cymru, Bangor.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb: 4.44

10.1 Background

The Board has been involved from the very beginning with strengthening the infrastructure of the Welsh language by promoting information technology, and also corpus planning, a field which deals, among other things, with translation, the standardisation of terms and place-names and developing a form of Welsh which is popular, useful and used. The latest development in information technology was launching, in partnership with Microsoft, Language Interface packs to facilitate using Welsh on computers. The Board has also contributed toward translating Open Office into Welsh. Corpus planning is important in laying a foundation for supporting activities in several other fields, especially in providing some of the linguistic resources needed to facilitate bilingualism and develop new opportunities to use the Welsh language. Considerable innovative work has already been undertaken in the field in Wales, especially by the Welsh Language Board, the Association of Welsh Translators and Interpreters, and by Canolfan Bedwyr and the Place-names Research Centre at the University of Wales, Bangor.

Cross-references to Iaith Pawb: 4.44

10.2 Amcanion a Thargedau

- Codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg ac ehangu ei statws drwy hyrwyddo a hwyluso ei defnyddio.
- Datblygu arfau iaith i hwyluso dwyieithrwydd, ac i'w gwneud hi'n haws i bobl ddefnyddio'r Gymraeg, yn llafar ac yn ysgrifenedig.
- Diffinio a sefydlu swyddogaeth i'r Bwrdd yn y lle cyntaf, ac wedyn i Lywodraeth y Cynulliad, fel y corff cenedlaethol i gydlynu safoni termau ac enwau lleoedd.
- Sefydlu cronfa ddata genedlaethol o dermau wedi'u safoni yn 2005.

10.2 Objectives and Targets

- Raise awareness of the Welsh language and enhance its status by promoting and facilitating its use.
- Develop language tools to facilitate bilingualism, and to make it easier for people to use Welsh, both orally and in writing.
- Define and establish a function for the Board initially, and subsequently for the Assembly Government, as the national body to co-ordinate the standardisation of terms and place-names.
- Establish a national database of standardised terms in 2005.
- Develop the Welsh/English translation profession by promoting professional translation standards in Wales, and by developing the Association of Welsh Translators and Interpreters as an accreditation and benchmarking body for translation standards.
- Complete a Translation Strategy in 2005.
- Complete an Information Technology Strategy in 2005.

- Datblygu'r proffesiwn cyfieithu Cymraeg/Saesneg drwy hybu safonau cyfieithu proffesiynol yng Nghymru, a thrwy ddatblygu Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru fel corff achredu a meincnodi safonau cyfieithu.
- Cwblhau Strategaeth Cyfieithu yn 2005.
- Cwblhau Strategaeth Technoleg Gwybodaeth yn 2005.
- Comisiynu yn 2005 brosiect Cyfieithu Peirianyddol i bara dros dair blynedd, ynghyd â thargedau gwerthuso ar gyfer pob cam.
- Cwblhau Strategaeth Cynllunio Corpws yn 2007, a fydd yn cynnig canllawiau i asesu traweffaith y gwahanol elfennau ar y Gymraeg.

10.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Parhau i gydweithio gyda phartneriaid mewn technoleg gwybodaeth a chyfieithu, a cheisio dulliau newydd o ehangu defnyddio'r Gymraeg mewn technoleg gwybodaeth.
- Cynnal a datblygu'r gronfa ddata genedlaethol o dermau wedi'u safoni, a gweithredu rhaglen barhaus o safoni termau, yn bennaf mewn meysydd sy'n berthnasol i weinyddiaeth gyhoeddus.

- Commission in 2005 a three-year Machine Translation project with staged evaluation targets.
- Complete a Corpus Planning Strategy in 2007 which will offer guidelines to assess the impact of various elements on the Welsh language.

10.3 Implementation Priorities

- Continue to work with partners in information technology and translation, and to seek new ways of extending the use of Welsh in information technology.
- Maintain and develop the national database of standardised terms and implement a continuous programme for the standardisation of terms, principally in fields relating to public administration.

- Gweithredu'r Strategaeth Cyfieithu, a sefydlu safonau rheoleiddio ac achredu mewn partneriaeth â Chymdeithas Cyfieithwyr Cymru.
- Gweithredu'r Strategaeth Technoleg Gwybodaeth a monitro'r prosiect Cyfieithu Peirianyddol.
- Gweithredu'r Strategaeth Cynllunio Corpws.

- Implement the Translation Strategy and establish professional standards for regulation and accreditation in partnership with the Association of Welsh Translators and Interpreters.
- Implement the Information Technology Strategy and monitor the Machine Translation project.
- Implement the Corpus Planning Strategy.

11 YMCHWIL A DATA
RESEARCH AND DATA

11.1 Cefndir

Mae adran yn Iaith Pawb sy'n sôn am bwysigrwydd datblygu'r gallu i ymchwilio a dadansoddi (para. 2.45 – 2.47) er mwyn creu polisïau sy'n seiliedig ar dystiolaeth (para 2.48). Cyfeirir yn benodol yno at ddarparu adnoddau i **"alluogi Bwrdd yr Iaith Gymraeg, gyda chymorth Cyfarwyddiaeth Ymchwil a Datblygu Llywodraeth y Cynulliad, i ddatblygu, crynhoi a chyhoeddi amrywiaeth o ddangosyddion ystadegol..."**. Yn ogystal, ymrwymir ym mhara. 2.17 i **"ddatblygu arolygon defnydd iaith a fydd yn cynorthwyo i lywio ein gwaith llunio polisïau a mesur ei effaith"**. Mae Bwrdd yr Iaith Gymraeg eisoes wedi llunio a rhoi ar waith ei Raglen Ymchwil tair blynedd; hefyd, mae Strategaeth Data wrthi'n cael ei pharatoi ar hyn o bryd.

Croesgyfeiriadau at Iaith Pawb: 2.16, 2.17, 2.37, 2.40, 2.45 – 2.47, 2.48, Camau gweithredu (tud. 19)

11.1 Background

There is a section in Iaith Pawb which deals with the importance of developing research and analysis capacity (para 2.45-2.47) in order to create evidence-based policies (para 2.48). There is specific reference there to providing resources **"to enable the Welsh Language Board, assisted by the Assembly Government's Research and Development Directorate, to develop, compile and publish a range of statistical indicators..."**. In addition, there is a commitment in para 2.17 to **"developing language use surveys which help inform our policy-making, and measure impact"**. The Welsh Language Board has already prepared, and begun to implement, its three-year Research Programme; a Data Strategy is also currently being prepared.

Cross-references to Iaith Pawb: 2.16, 2.17, 2.37, 2.40, 2.45 – 2.47, 2.48, Actions (p. 19)

11.2 Amcanion a Thargedau

- Datblygu ffynonellau data a gwaith ymchwil ar y Gymraeg fel y bo gennym gorff o ymchwil rhyngwladol ei safon, a fydd yn llywio datblygiadau polisi sy'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Dechrau gwireddu'r Strategaeth Data yn 2006; y gwaith i ymestyn hyd 2014.
- Llunio a dechrau gweithredu'r Rhaglen Ymchwil newydd yn 2006; y gwaith i ymestyn hyd 2014.

11.3 Blaenoriaethau Gweithredu

- Cwblhau'r Strategaeth Data, mewn ymgynghoriad â Llywodraeth y Cynulliad. Bydd y strategaeth yn sicrhau, wrth iddi gael ei gweithredu, y bydd data mwy perthnasol, rheolaidd a sylweddol yn sail i gynllunio ieithyddol.
- Gweithredu'r Rhaglen Ymchwil newydd a fydd, fel ei rhagflaenydd, yn canolbwyntio ar gynyddu defnyddio'r Gymraeg gan wahanol grwpiau mewn gwahanol sefyllfaoedd.

11.2 Objectives and Targets

- Develop data resources and research work on the Welsh language so that we have a research corpus of international standing, which will direct evidence-based policy developments.
- Start to implement the Data Strategy in 2006; the work to extend until 2014.
- Draw up and start to implement the new Research Programme in 2006; the work to extend until 2014.

11.3 Implementation Priorities

- Complete the Data Strategy, in consultation with the Assembly Government. The strategy will ensure, as it is implemented, that there will be more relevant, regular and substantial data as a basis for language planning.
- Implement the new Research Programme which, like its predecessor, will concentrate on increasing the use of Welsh by various groups in different situations.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5 - 7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT

Ffôn: (029) 2087 8000
Ffacs: (029) 2087 8001
e-bost: post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
Gwefan: www.bwrdd-yr-iaith.org.uk

Welsh Language Board
Market Chambers
5 - 7 St Mary's Street
Cardiff CF10 1AT

Tel: (029) 2087 8000
Fax: (029) 2087 8001
e-mail: post@bwrdd-yr-iaith.org.uk
Website: www.welsh-language-board.gov.uk

BWRDD YR IAITH
GYMRAEG • WELSH
LANGUAGE BOARD

Noddir gan
Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by
Welsh Assembly Government